YR YMOFYNYDD.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] MAI, 1899. [RHIF 137.

"YR HYN A GYSYLLTODD DUW NA WAHANED DYN."

MAE y syniad aneglur sydd yn bodoli o barthed i ystyr y gair "Undodaidd" yn cael ei esbonio fynychaf gan y ffaith y gosodir cymaint pwys arni, fod Undodiaeth yn ysbryd yn hytrach na *dogma*, yn dangos sut mae y meddwl yn gogwyddo, yn hytrach na meddylddrych sefydlog, ac o ganlyniad, mae yn gyfryw nas gellir rhoddi diffeiniad penodol ohoni. Ond mae yr anhawsder gwirioneddol yn gorwedd yn ddyfnach na hyn. Mae yn gorphwys yn y ffaith nad yw yr enw mwyach yn y byd duwinyddol, fel ag y mae yn meddwl y bobl, ddim yn un gwahaniaethol. Nid yw mwyach yn sefyll yn erbyn rhyw enw cyferbyniol; nid yw mwyach yn golygu gelyniaeth fyw; ni ymddengys mwyach fod ganddo ddim i osod pwys arno, neu i helpu yr enwad sy'n dwyn yr enw i ddangos y rheswm dros ei fodolaeth fel enwad arbenigol. Symir yr holl 'stori i fyny yn y ffaith fod hen wrthwynebydd llythyrenol Undodiaeth wedi marw.

Haner can' mlynedd yn ol yr oedd y Pwlpud Undodaidd yn adseinio gan *arguments* a *phrotests* yn erbyn Athrawiaeth y Drindod. Yr oedd llenyddiaeth yr Undodiaid yn ymwneyd yn benaf â'r prawfion, o'r Ysgrythyr a rheswm, dros undod Duw, mewn gwrthgyferbyniad i osodiadau manwl Credo Athanasius. 'Doedd neb yn anwybodus, y pryd hwnw, o ystyr y gair "Undodwr." Yr oedd yn cario ei ystyr ar ei wyneb. Yr oedd ganddo wrthwynebydd gwirioneddol a hollol adnabyddus. Yr oedd ganddo fywyd gwirioneddol i'w fyw. Llefarid y gair bob amser gyda phwyslais, ond mae'r pwyslais yn ymddibynu ar wrthwynebiad; a phan mae gwrthwynebiad yn darfod, mae y pwyslais yn marw. Mae hen wrthwynebydd Undodiaeth wedi cilio o faes yr ymryson. Yr ydys, o ganlyniad, wedi colli ystyr y gair "Undodaidd."

Nid am fy mod yn awgrymu fod y Drindod, fel *dogma*, wedi marw, neu fod y ddadl o barthed iddi wedi colli ei swyn i fyfyrwyr a duwinyddion, neu nad yw'r enw o hyd yn arwyddair arweiniol ar faner y rhan fwyaf o eglwysi. Ond fel cwestiwn ymarferol, bywydol, yn myned i mewn i fywydau beunyddiol ac i feddyliau corff mawr o Gristionogion, mae wedi darfod cael unrhyw ddyddordeb llywodraethol. Neu, lle y mae yn cadw ei afael, mewn enw, ar y meddwl, mae yn dra gwahanol i'r *idea* gynhenid am Undodiaeth. Dosranwch chwi yn awr athrawiaeth y Drindod, fel y credir hi gan ddynion deallus yn y gwahanol eglwysi efengylaidd, chwi gewch mai Trindod ffurfiol yn unig sydd gan y mwyafrif mawr ohonynt; siaradant am y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glan, fel tair ffurf neu dri modd amlygiadau o'r Duwdod—athrawiaeth na wnai ond ychydig iawn o'r Undodiaid ei gwadu neu ei hamheu, ac athrawiaeth nad yw yn anghyson â'r *idea* o Undod Duw. Ond anaml yn awr y pregethir cyfrinion dyrys yr hen athrawiaeth fel y gosodir nhw allan yn Nghredo Athanasius; ychydig o afael sydd ganddynt ar y meddwl diweddar, ac anfynych y clywir son am danynt mewn dadl. Ar dir yr hen athrawiaeth, nid oes un pwnc o ddyddordeb byw, un gwrthwynebydd sylweddol, i roddi pwys ar y gair "Undodaidd."

Mae yn rhaid i Undodiaeth, gan hyny, gymeryd cwrs newydd, nid i addef ei bod yn wan, neu wedi ei threchu, ond i ddatgan ei chryfder a'i buddugoliaeth. Gan nad yw yn ofynol mwyach i bwysfawru y gair fel *protest* yn erbyn gwrthwynebydd nad yw yn bodoli, rhaid i ni ddangos y rheswm dros ei arfer fel enw sydd yn ein gwahaniaethu ni fel enwad. Rhaid i ni, fel Undodiaid, fyw bywyd newydd, gychwyn ar *brotest* newydd, gwrthwynebu gelyn byw, er mwyn i'n henw gael ystyr neu i gael ei bwysfawru yn meddylddrych crefyddol y byd.

Camsyniad mawr fyddai rhoddi yr enw fyny. Oblegid, ai gymeryd e' maes o diriogaeth *dogma* i faes ymofyniad diweddar, mae yn gosod allan feddwl uchaf yr oes. Mewn duwinyddiaeth mae yn sefyll heddyw am y syniad sydd yn ffurfio gair diweddaf gwyddor. Mae gwyddoniaeth yn hollol Undodaidd. Undeb yw y gair y mae hi yn gosod ei phwys mwyaf arno, pan mae'n dyweyd fod yr holl alluoedd sydd ar waith yn y bydysawd yn ddim ond ffurfiau gwahanol o un gallu. A roi'r y gair "Undeb" i fyny yn y diriogaeth uwch? Na. Y gair sydd yn cyhoeddi yr undeb hwn ni roi'r e' i fyny mewn duwinyddiaeth. Dyma'r gair olaf sydd i fod yn meddylddrych crefyddol dyn, y gair a gyhoedda nid mewn un ystyr haerdybiol, ond yn ngoleuni eang gwybodaeth a chariad, nid yn unig fod yr Arglwydd ein Duw yn Un, a'i enw yn Un, ond fod bywyd y bydysawd yn un ac yn anranadwy.

A thrysori yr enw "Undodaidd," gan hyny, fel enw sydd yn gosod allan y pwynt uchaf mewn ymofyniad crefyddol a gwyddonol, rhaid i ni edrych oddiamgylch i ni heddyw am *idea* wrthwynebol, er mwyn rhoi i'n henw ei bwys presenol, a mynegi ei ystyr a'i le presenol yn ymryson y byd crefyddol. Nid oes raid i

ni edrych yn mhell. Gwrthwynebydd mawr a pheryglus yr *idea* o Undod a gawn ni, nid mwyach yn y *ddogma* dduwinyddol o'r Drindod, ond yn y nodwedd hono sydd o hyd yn llywodraethu meddwl a bywyd dyn, yr arferiad o wahanu yr hyn a gysylltodd Duw—y nodwedd o gael dwy elfen i reoli y bydysawd, o osod yn erbyn eu gilydd, er engraifft, fater ac ysbryd, y cysegredig a'r cyffredin, tiriogaeth natur a thiriogaeth y goruwchnaturiol, y byd hwn a'r byd nesaf, Duw a dyn, y dynol a'r Dwyfol, nodwedd sydd fwy lawer na'r Drindod, neu holl Drefn y Cadw, wedi bod â gallu anhraethol i gadw crefydd ar wahan oddiwrth fywyd, a dyn yn anymwybodol o Dduw.

Dyma faes gwirioneddol ymrafael yn y byd duwinyddol a moesol heddyw, nid rhwng y tybiau o Undod a Thrindod, ond rhwng egwyddorion Undeb â'r syniad fod yna ddau allu yn mynu eu llywodraeth dros y bydysawd. Nid damwain a ddygodd y gair *deuce* i mewn i iaith y werin yn lle y gair diafol. Y *deuce*—yr *idea* fod yna ddau hanfod, dau allu, dau fyd, lle nad oes mewn gwirionedd ond un—yw y diafol gwirioneddol sydd wedi teyrnasu cy'd i dywyllu a dyrysu dirnadaeth grefyddol.

Mewn gwrthwynebiad i'r gallu hwn, cenadwri Undodiaeth ddiweddar yw datgan undeb pethau yr ydys wedi edrych arnynt hyd yn hyn ar wahan, ac yn rhai nas gellir eu cymodi. Ei gwaith yw tynu i lawr ganolfuriau y gwahaniaeth, a gwneyd pob bywyd yn un—pwysleisio y gwirioneddau mawrion fod teyrnas natur a theyrnas y Goruwchnaturiol yn un deyrnas; fod y byd hwn a'r byd nesaf yn cael eu llywodraethu gan yr un deddfau tragywyddol ac anghyfnewidiol, fod plant dynion yn wirioneddol yn blant Duw, a bod y Dwyfol a'r dynol yn un.

Gellir gweled gwerth y gwirionedd hwn wrth sylwi ar yr effaith y mae ei gymhwysiad yn gael ar rai o'r hen syniadau sydd o hyd yn llechu yn meddyliau'r bobl. Cymerwch, er engraifft, yr athrawiaeth o gosb dragywyddol. Yr hen ddull Undodaidd o geisio troi yr athrawiaeth hon yn ei hol oedd trwy apelio at ddaioni Duw, trwy ddangos ei bod yn anghyson â chymeriad Duw i dynghedu eneidiau neb o'i blant i boen tragywyddol. Ond y mae gwir wrthodiad o'r athrawiaeth hon yn gorphwys ar sail ddyfnach na hyd yn nod gariad a thynerwch Duw. Mae sylfaen yr athrawiaeth ddychrynllyd hon yn ymorphwys ar ffurf o ddwy wrth-elfen (*dualism*), ar y syniad gwrthun sydd yn gwahanu y byd hwn oddiwrth y nesaf, sydd yn rhoi i'r dygwyddiad corfforol yn unig o farwolaeth y corff y gallu o newid nid yn unig gyfansoddiad moesol ac ysbrydol ein natur, ond hefyd gymeriad Duw, ac hyd yn nod hanfod y bydysawd; sydd yn rhoi i'r bywyd dyfodol, nid yn unig amodau gwahanol, ond deddfau gwahanol i'r rhai sy'n fodoli yma; sydd yn gosod gagendor mawr rhwng y ddau fyd, el pe byddent yn cael eu llywodraethu gan fodau gwahanol, ac ar egwyddorion gwahanol. Ar y dyb fod dau allu fel hyn yn llywodraethu y gallasai Iawnffyddiaeth ddal am foment athrawiaeth yr edrychasid arni fel un annuwiol, pe bai ganddi i ymwneyd â goruchwylion y bywyd hwn.

Yn awr, mae gwir Undodiaeth, wrth gadw ei golwg ar yr egwyddor syml o undeb, yn gwadu yr hen athrawiaeth trwy ymosod ar y syniad o ddau allu ar ba un y mae yn ymorphwys; trwy ddyweyd nad oes ac nas gall un gagendor gael ei greu gan angeu rhwng y byd hwn a'r nesaf—fod y ddau fyd yn un, fod holl fywyd yn un cyfanwaith didor. Mae yn gwadu yr athrawiaeth trwy osod marwolaeth yn ei le fel ffaith anianol yn unig, ac nad oes ganddo, o ganlyniad, ddim i wneyd â deddfau moesol ac ysbrydol. Maentumia Undodiaeth heddyw undeb bywyd, a rhydd i ddynion y sicrwydd ardderchog y bydd yn y byd nesaf, yn gystal a hwn, yr un deddfau tragywyddol yn myned yn mlaen, yn gobrwyo tebyg a thebyg; yr un egwyddor dragywyddol o addaliad yn gwau ei chadwyn ddiderfyn o ganlyniadau. Yn yr ymwybodolrwydd o'r gwirionedd syml hwn, fod bywyd yn un, yn cael ei lywodraethu gan yr un Bôd, ac yn cael ei reoli gan yr un deddfau yn mhob man a phob amser, nid oes raid i'r Undodwr heddyw gymeryd rhan mewn dadleuon gwâg a chwerw o barthed i adnodau ar boenau tragywyddol, a gwynfyd tragywyddol. Nid oes raid iddo ond yn unig cymeryd ei safle ar dir cadarn undeb y byd hwn a'r nesaf. A chan ei fod yn gwybod yn dda fod nefoedd wedi dyfod i'w fywyd ac i'w feddwl yma trwy weini i angenion ereill, a chydymdeimlo â gwasgfeuon ereill, trwy helpu pawb sydd yn dyoddef ac mewn cyfyngder; a chan y gŵyr hefyd fod uffern wedi tywyllu ei fywyd a'i feddwl yma trwy ffolineb a phechod—fe ŵyr yn well nas gall neb ddyweyd wrtho beth fydd nefoedd ac uffern yn ol llaw. Nid oes eisieu arno un ffug duwinyddol i gael ei ddal o'i flaen er mwyn ei ddarbwyllo neu ei ddychrynu; ac os yw ei wrthwynebydd digofus yn ei dynghedu i uffern, neu yn desgrifio iddo boenau y damnedigion, lle y caiff efe fyned am ei heresi, gwna dderbyn ei dynged yn llawen, a dywed: Os oes y fath uffern ag ydych chwi yn ddarlunio, dyna'r lle i mi. Dyna'r lle i bob Undodwr cyson, i lawr yno yn helpu ei frodyr i'r làn. Os nad oes ond y nefoedd ag ydych chwi yn ddarlunio, 'dyw hwnw ddim lle i mi. Yn uffern yn unig, yn ol yr hyn ydych chwi yn portreiadu y dyfodol, y mae maes i mi ymarfer â'r help ac â'r cydymdeimlad cariadus sydd wedi rhoddi i mi fy nefoedd wirioneddol ar y ddaear. Yn eich uffern chwi, mi chwiliaf fi, ac rwy'n siwr o gael fy nefoedd.

(Pw barhau.)

WEITHIAU y mae y tafod yn tori y pen.

Y NEB a ddalio ddig yn erbyn ei elyn, a geidw ei glwyfau ei hunan yn agored.

GALL amser ddysgu yr hwn na chymerai ddysg oddiwrth ddim arall.

FY MAM.

ATAT ti, yr hon a'm dygodd, hoffwn, pe bai modd, roi llam;
Gael dy wasgu mewn anwyldeb at fy mynwes, O, fy mam!
Mynaf eto groesi'r eigion, a'th gusanu, os byw ac iach,
Gyda'm breichiau am dy wddwg, megys gynt yn blentyn bach.

'Roeddit ti mor llawn o ddwysder, teimlit gyfrifoldeb mam;
Gedaist argraff ar fy meddwl cyn im' allu cerdded cam;
Pan y rhoddwyd y waith gyntaf wrth dy fron dy febyn gwyn,
Pa athronydd fedr ddirnad fath dy deimlad y pryd hyn?

O! 'r fath bryder, fath ddiwydrwydd—canu, gwau, a siglo'r cryd,
Codi cestyll yn yr awyr, a fy ngwylio yr un pryd;
Mawr fu'th helynt yn fy nhywys gylch y dodrefn gam i gam,
A fy nysgu i dori geiriau; gwn mai'r cyntaf ydoedd—"Mam!"

Pan y syrthiwn, gan ddolurio llaw neu wyneb ar ryw ran,
Byddet yn fy ngwella'n union drwy roi cusan ar y fan.
A phan fyddai rhyw anhwylder yn rhoi imi boen a brath,
Gwneit o'r llysiau'n mhen y gegin feddyginiaeth heb ei bath.

Eit a mi i'r cyrddau'n blentyn, ar y Sul, a noson gwaith;
Er nas gallwn i 'r pryd hwnw gerdded nemawr iawn o'r daith;
Byddet yn ymdrechu 'nghario ar dy gefn, ac ar dy fraich,
Ac 'rwy'n beiddio d'weyd na chlywodd neb di'n achwyn ar dy faich.

Cyfnod dedwydd ydoedd hwnw, pan y'm codit i dy gol,
Ac y'm dysgit i barablu Gweddi'r Arglwydd ar dy ol;
'Roedd fath ddidwyll grefyddolder yn nawseiddio'th siarad am
Iesu Grist, ac am y nefoedd, nad anghofia' i byth fy mam.

O'r amrywiol ddwys gynghorion roddaist im', 'dä'r un ar goll;
Mynych deimlais nerth y frawddeg fod y nef yn gwel'd yr oll;
Pan y'm temtiwyd gan yr afal dros glawdd perllan Gallt y Maen,
Tybiwn fod y nef yn ymyl, ac yn agor o fy mlaen.

O, fy mam, yr oedd dy ofal a dy gariad heb un trai,
Dyma ddarlun o ffyddlondeb lle na chefais gysgod bai;
Ddaethum i erioed i geisio, na bai'n barod ddillad glan;
Adre'n wlyb erioed na byddai'r dillad sychion ger y tân.

Wedi penderfynu'm rhoddi mewn masnachdy yn y dref,
Yn fwy miniog byddai'r cynghor, yn fwy taer y weddi gref;
O, mor anhawdd oedd ymadael, rhoddi'r cusan, gwasgu'r llaw;
Tithau'n gwylio drwy dy ddagrau, nes im' fyn'd o'r golwg draw.

Wele 'chydig ddyfyniadau o'th lythyrau, o'm cof nad ä—
"Bydd yn onest," "Gweddïa lawer," "Cofia fod yn fachgen da;"
"'Rwy'n gobeithio'th fod mewn iechyd, ac nad wyt yn cael un cam;"
"Anfon lythyr yn fwy mynych, 'machgen anwyl, at dy fam."

Dyna'r diwrnod pruddaf gefais yn fy ngenedigol wlad,
Oedd pan gyd-dywalltem ddagrau heillt ein dau ar arch fy nhad;
Trymder hiraeth bron a'th lethu, minau'u ceisio'th ddal â'm braich;
Diolch!—nerth wrth raid o'r nefoedd, gaed i'n cynal dan y baich.

Pan ddaeth gwyntoedd croes i'm gyru i Amerig fawr ei bri,
Trwm oedd gadael gwlad fy nhadau, trymach fyth dy adael di;
Wedi casglu fy holl ddewrder, bu yn ymdrech galed iawn,
Pan oedd llanw serch yn chwyddo, gadw'n ol y deigryn llawn.

Er fod môr cynddeiriog rhyngom, nis gall ein gwahanu ni;
Gwn dy fod yn aml yma, minau yna gyda thi;
Nid yw pellder ddim i'r meddwl, gall yn hawdd dros fôr roi llam;
Pwyntia'r cwmpawd fyth i'r gogledd, felly'm serch fyth at fy mam.

Methais ddarllen yn dy lythyr, heb i'm dagrau wlychu'r llen,
Fod blynyddau yr addewid eisoes wedi d'od i ben:
Gallaf dd'weyd o ddyfnder calon, rhoddwn bobpeth feddaf am
Gael lês newydd, pe yn bosibl, ar dy fywyd, anwyl fam.

O! 'rwy'n hoff o'r darlun yma, peth agosa' i ti dy hun;
Ond 'rwy'n canfod cyfnewidiad, gwelaf henaint yn y llun,—
Llwyd y gruddiau gynt oedd wridog, gwyn yw'r gwallt, mae'r wàr yn gam;
Eto mae rhyw degwch rhyfedd yn dy henaint di, fy mam.

Mynaf eto groesi'r eigion, a'th gusanu, os byw ac iach,
Gyda'm breichiau am dy wddwg, megys gynt yn blentyn bach;
O, fy mam, fath wledd im' fyddai ysgwyd llaw a gwel'd dy wedd;
Mae llaw arall hoffwn wasgu, ond—*mae hono yn y bedd!*

Franklin, Pa., America. RHYS ETNA JONES.

YMWELIAD A CHILIAU.

DYDD Mercher, y 12fed o Ebrill, yn nghwmpeini dau gyfaill, aethum ar ymweliad â'r lle uchod—enwog ac adnabyddus iawn i ni fel enwad. Yr oedd amryw achosion yn fy nghymhell i ymweled â'r lle ar y dydd dan sylw. Yn gyntaf, yr oedd yn ddiwrnod pwysig iawn yn hanes y ddeadell fechan, ond llafurus, sy'n arfer addoli yn y lle; oherwydd yr oedd y seremoni o osod i lawr geryg coffadwriaethol—chwech mewn nifer—yr adeilad newydd i gael ei chyflawni. Ac nid oeddwn wedi bod mewn seremoni o'r fath ond unwaith erioed o'r blaen—mewn cysylltiad â'r Eglwys Sefydledig. Ar yr adeg hono, yr oeddwn yn Eglwyswr selog; ac y mae oddiar hyny dros ddeng mlynedd ar hugain. Ond yr oeddwn yn rhy ieuanc ar y pryd i allu cofio nemawr am yr amgylchiad, rhagor nag fod y plant—minau yn eu plith—wedi cael pryd da o de a bara brith. Felly naturiol iawn oedd i mi deimlo chwant i fod yn bresenol mewn seremoni o'r fath unwaith eto, yn enwedig gan mai mewn cysylltiad âg achos Undodaidd oedd y seremoni. Nid ydyw yr Undodiaid hyd yma wedi bod yn enwog fel carwyr seremonïau, a theimlwn ryw fath o gywreinrwydd i wybod pa mor bell yr ydym ni yn yr oes hon wedi ymadael â ffyrdd y tadau. Ond nid oes un niwed cyhyd ag na fydd y seremonïau yn cael eu dyrchafu i'r lle na ddylent; a chredaf nad oes berygl i hyn ddygwydd yn ein plith. Hefyd, yr oedd yn dda genyf gael y cyfle i ddangos hyny o gydymdeimlad oedd genyf â'r gweinidog a'r gynulleidfa yn yr anturiaeth bwysig maent wedi ymgymeryd â hi. Maent yn wir yn haeddu cydymdeimlad. Yr wyf wedi bod yn Ciliau lawer gwaith cyn hyn. Yr wyf yn cofio—fel mae llawer yn cofio, oherwydd nid oes eisieu myned yn ol yn mhellach na rhyw bum' mlynedd—pan nad oedd yn y lle ond yr hen gapel, a hwnw yn ddigon gwael yr olwg arno, yn nghyda thŷ to gwellt ychydig yn nes i lawr yr heol. Heddyw, pe yr ymwelid â'r lle y tro cyntaf er's pum' mlynedd gan rywun, o'r braidd y byddai yn alluog i'w adnabod.

Mae'r gynulleidfa wedi gweithio yn ddeheuig iawn. Yn gyntaf, adeiladwyd tŷ anedd; yna adeiladwyd tŷ arall yn ei ymyl, ar yr un cynllun a'r cyntaf, llawr yr hwn a etyb y dyben o weithdy i fy hen gyfaill Evan Evans, na'r hwn nid yn aml y ceir arweinydd canu mwy ffyddlon, ymdrechgar, a medrus; ac y mae y llofft wedi ei threfnu yn y modd mwyaf chwaethus a destlus er cadw Ysgol Sul, gwyliau te, ysgol gân, cyfarfodydd llenyddol, ac yn y blaen; ac ar hyn o bryd, yn yr ystafell hon y cynelir y gwasanaeth crefyddol ar y Sul. Ac yn ychwanegol at yr uchod, mae tai ereill angenrheidiol wedi eu hadeiladu hefyd. Ar ol gorphen hyn oll, aethant yn nghyda'r gwaith o adeiladu iddynt eu hunain deml i addoli; ac os dyogel ydyw i farnu wrth yr

ymddangosiadau a'r argoelion presenol, nid hir fyddant cyn gweled eu holl lafur wedi ei gyflawn orphen, mor bell ag y mae a fyno yr adeilad â'r mater, a'u gobeithion wedi eu sylweddoli, yn enwedig yr un gobaith o gael lle i addoli teilwng o Wrthrych eu haddoliad, o'r achos a bleidir ganddynt, ac o'r oes y maent yn byw ynddi.

Yr oedd achos arall, drachefn, yn fy nghymhell i fod yn bresenol. Ymresymwn ynof fy hun yn debyg i hyn: Os oedd y Parch. E. Ceredig Jones yn ei theimlo yn ddyledswydd arno i deithio o Bradford er bod yn bresenol, teimlwn y byddai yn siarad yn isel am fy mrwdfrydedd i os methwn deithio ychydig filldir-oedd er bod yn bresenol. Ac y mae, i mi, o leiaf, yn ffynonell o ysbrydoliaeth i gael treulio ychydig amser yn ei bresenoldeb—mae mor drwyadl frwdfrydig dros yr achos daionus fel nas gall y sawl a ddaw o fewn cylch ei ddylanwad lai na derbyn rhyw gyfran ohono, a'i anfon yn ol i'w gylch ei hun gyda phenderfyniad newydd i ymroddi mwy nag erioed.

Yr wyf wedi son am yr hyn y mae cynulleidfa Ciliau wedi wneyd yn ystod y pum' mlynedd diweddaf; nid wyf am i'r darllenydd ddeall fod yr holl glod yn perthyn iddynt hwy. Mae rhan helaeth iawn ohono—ac, mewn un ystyr, y rhan fwyaf pwysig—yn perthyn i'r cyfaill caredig. Gŵyr y cyfeillion yn Ciliau faint mae wedi wneyd yn well nag y medr un o'r tu allan wybod. Efallai, bob yn dipyn, yr adroddir yr hanes gan rywun ohonynt sydd yn gwybod mwy am dano na mi, er fy mod i yn gwybod cryn dipyn o'r hanes hefyd; oherwydd credaf ei fod wedi gwneyd yr oll oddiar deimlad o gariad at y lle y magwyd ef ynddo—mewn ystyr grefyddol. Ond mae hyn yn rheswm cryf paham y dylid gwneyd yn hysbys yr hyn y mae wedi wneyd dros Ciliau. "Llewyrched felly eich goleuni," meddai yr Iesu, nid er hunanglod, ond er dylanwadu yn ddaionus ar ereill.

Yr wyf wedi son am yr achlysur a'm galwodd i Ciliau ar y 12fed o Ebrill; rhaid dyweyd ychydig eiriau yn mhellach am weithrediadau y dydd. Cyrhaeddasom Ciliau yn agos i amser dechreu—tri o'r gloch yn y prydnawn. Dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca. Nid oes eisieu dyweyd dim am Mr. Davies yn y ffordd o ganmoliaeth; gŵyr pawb sy'n ei adnabod—a pha Undodwr sydd heb fod?—ei fod yn llanw ei le mewn achosion o'r fath hyn fel nas gall neb arall ei wneyd. Ar ol gorphen hyn, aethpwyd yn nghyda'r gwaith o osod y ceryg coffadwriaethol. Yr oedd yno chwech ohonynt, a gosodwyd hwy gan yr un nifer o gyfeillion, ac yn y drefn ganlynol: y Parchn. Lewis Williams (gweinidog); E. Ceredig Jones, M.A., Bradford; Mr. Thomas Jonathan, Foelallt; Miss Evans, Tynant, dros ei mam, yr hon oedd yn analluog i fod yn bresenol oherwydd afiechyd, o'r hwn y dymuna pawb a'i hadnebydd adferiad buan; Cadben Davies, Rhydowenfach; a Miss Jenkins, Trecefel. Gwnaeth pob un ei waith yn ddeheuig, ac mewn ysbryd oedd yn gweddu i'r amgylchiad. Yr oedd y pedwar olaf yn gynrychiol-

wyr gwir deilwng o deuluoedd sydd wedi bod yn golofnau cedyrn i'r achos yn Ciliau am genedlaethau lawer. Mae rhai ohonynt bellach wedi symud i gymydogaethau ereill, ac felly yn methu gwneyd yr hyn a wnelent yn ddiamheu pe yn agos. Ond er wedi symud o gymydogaeth Ciliau, parhant i ddangos yr un dyddordeb a sêl yn y cylchoedd y troant ynddynt dros yr achos Undodaidd. Mae teuluoedd y Foelallt a Thynant yn parhau o hyd yn golofnau cedyrn i'r achos, teilwng o'u hynafiaid. Drwg oedd gan bawb am yr achos oedd yn lluddias Mrs. Evans, Tynant, i fod yn bresenol. Gŵyr yr ysgrifenydd ychydig, ond nid yr oll, yn ddiau, am y dyddordeb a deimla yn yr achos Undodaidd yn gyffredinol, ac yn yr achos yn Ciliau yn neillduol; ac nid oedd y deyrnged o ganmoliaeth a roddwyd iddi gan un llefarydd (gan Ceredig, yr wyf yn meddwl) ddim un iòd yn ormod. Terfynwyd y rhan hon o'r seremoni trwy weddi gan y gweinidog. Ar ol hyn, aeth pawb i gyfranogi o'r danteithion oedd wedi eu parotoi gan wragedd a merched ieuainc y gynulleidfa. Yr oedd y ganmoliaeth roddwyd gan y cyfeillion fu yn cynyg diolchgarwch iddynt ar y diwedd yn gyflawn haeddianol.

Wrth gwrs, nid oedd y cynulliad yn gyflawn heb "gwrdd clebran," fel y gelwid ef gan un cyfaill. Bu amryw yn siarad, a siaradodd pawb yn dda ac effeithiol. Beth bynag, dyna'r ddedfryd glywais i gan bawb ar ol myned allan. Yr oedd geiriau toddedig a difrifol y Cadben Davies yn effeithiol neillduol; araeth benigamp Ceredig, mewn Cymraeg pur, yn ddyddorol dros ben; a'r eiddo Mr. Jenkins, Glanwern, yn hollol bwrpasol. Un nodwedd ddyddorol o'r cyfarfod oedd presenoldeb rheithor a chiwrad y plwyf. Cafwyd anerchiad gan y ddau; a hawdd barnu eu bod o galon yn dymuno yn dda i'r cyfeillion yn Ciliau. Mae dygwyddiadau fel hyn yn tueddu i dori i lawr furiau gwahaniaeth, a chreu cydweithrediad cariadus cydrhwng y gwahanol gangenau o'r Eglwys Fawr Gyffredinol. Mae cydweithrediad calonog wedi ffynu rhwng yr Eglwys a'r Capel yn Ciliau erioed, fel y sylwodd y rheithor. Dywedodd un llefarwr hefyd fod yr Eglwys a'r hen gapel wedi cael eu hadeiladu gan yr un person; nid yw ei enw ar fy nghof pan yn ysgrifenu, er i mi ei glywed yn y cyfarfod. Yr oedd Mr. Davies, y rheithor, ar delerau cyfeillgar iawn â'r diweddar Mr. Rees, y cyn-weinidog—o ran hyny, pwy a allai beidio bod ar delerau cyfeillgar â Mr. Rees! Aml i air o galondid ac anogaeth dderbyniodd ysgrifenydd y llinellau hyn oddiwrtho—yn enwedig ar un amgylchiad neillduol nad oes eisieu ei enwi yma, pan nad oeddwn, fel yr wyf yn barod i gyfaddef, yn ei haeddu; er hyny, yr oedd y ganmoliaeth a'r anogaeth a gefais ganddo ar y pryd yn dangos yn well na dim arall a fedrai wneyd y teimlad a'r dymuniad da oedd yn ei fynwes; a hawdd y gallai ddeall y parch dwfn a deimlir i'w enw yn y cymydogaethau hyn. Ni fu neb erioed yn fwy teilwng o barch; a hir y parhao y goffadwriaeth am dano. Bu y cyfeill-

ion y Parchn. E. E. Jenkins a Davies, Alltyplaca, hefyd yn anerch y cyfarfod.

Felly y terfynwyd diwrnod a hir gofir gan y cyfeillion yn Ciliau. Mawr lwyddiant fo'n canlyn eu hymdrechion hwy a'u gweinidog parchus ac ymroddgar. Aethom ninau tua thref ar ol y cwbl, gan deimlo mai da oedd i ni fod yno.

YMWELYDD.

ER COF ANWYL AM MRS. JONES, BRONIESTYN.

YN sydyn fel y gawod drom
Ar flodau Ebrill daeth y siom,
Y siom a deimlwn hyd ein bedd,
Fel un a ranodd ddydd ein hedd.

Mor fynych mai'r blodeuyn sydd
Yn agor gyda thoriad dydd,
Mai hwnw wywa gynta'n llwyr,
Cyn teimlo awel lem yr hwyr.

O! marw'n ieuanc a wnaeth hi,
Ond mae'r adgofion anwyl sy'
Am dani'n perarogli'n llawn,
Er iddi gwympo'n gynar iawn.

Un byr fu'r grwn, ond llawn o waith,
A medi pob Gwirionedd wnaeth,
Ac i Wirionedd bu yn byw,
Gwirionedd byd, Gwirionedd Duw.

Eangder ei gwybodaeth hi
A'i cododd i anfarwol fri;
Yn myd y meddwl, dyma'r byd
Oedd serch ei henaid arno'i gyd.

Hyd angeu bu ei meddwl coeth
Yn cerdded megys ysbryd noeth;
Ai heibio'r *real* megys cawr,
Gan geisio yr *Ideal* mawr.

Byw i ddaioni oedd ei nod,
Nid byw i dderbyn dynol glod,
Ond byw i werth cydwybod bur,
A thywallt balm lle byddai cur.

A dyma yw meddylddrych Duw,
Mewn crefydd yn ei hanfod byw,
Yw enaid sydd yn rhoi heb drai
Ei hun i bawb fel ag y mae.

Os *marw* yw, mae'i bywyd hi
Yn aros wedi cerfio'i fri
Yn fewnol arnom, a bydd byw
Tra byddom ni—tra byddo Duw.

Aeth "pridd i'r pridd," i'w le ei hun,
Ni theimlodd mynwes mam yn flin;
Caiff gysgod nes y geilw Duw
Y marwol i drag'wyddol fyw.

Ei hysbryd pur, ehedodd ef
I'w gartref i'r drag'wyddol Nef;
Ac i ddadblygu fel y bu,
Yn ol ei dymuniadau hi.

Barchedig dad, mae'r nos yn ddu,
Y dduaf nos a welaist di!
Ni weli eto nos fel hon,
Na dyfnach briw i waedu'th fron.

Tuhwnt i'r oll mae Duw yr un,
O'th fewn it' hefyd dal dy hun,
Ar graig o Dduw—y graig a fydd
Yn dal o dan dy enaid prudd.

Bron Iestyn, O! mor wag y mae,
O bydded i dy anwyl rai,
A thithau ddiolch am a fu,
A'r hedd oedd yn ei chwmni hi.

Gilfach-y-Glyn. GWYNWAWR.

ETO.

NERTHOL dòn uwchlaw'r tònau -i'n hen dad,
Tra'n dwyn ei flin feichiau;
Addawodd, do, yn ddiau,—wrth fyw'n hen
Y gweinai i'w angen dan gŵyn angau.

Dysgwyl am anwyl enyd,—yfory
Yn feirwon y gweryd;
Cyrhaedd y bedd,—cwrdd y byd,
Oedfa o wyn ac adfyd.

Un â'i sail ar dir sylwedd,—yn deilwng
Adeilad mewn buchedd;
Yn lloni'r saint, yn lleinw'r sedd,
Yn gâr anwyl mewn gwirionedd.

Saif ei lles fel hanes hynod—unawl
Enaid a chydwybod;
Mae y byw'n drist am ei bod
Yn cefnu ar ein cyfnod.

Gweithiodd o'i bodd tra y bu;—gwraig enwog
I'r gweiniaid, fel Iesu;
Ei haberth sy'n prydferthu
Gemau'r gwaith trwy Gymru gu.

Ein doeth Iôr, O! bendithia—ein hen was
Yn hwyr ddydd ei yrfa;
O! rho Dy hedd i'r "gŵr da,"
Ninau seiniwn "Hosanna."

Trebanos. D. W. DAVIES.

NODION A SYLWADAU.

YCHYDIG flynyddoedd yn ol ysgrifenodd y Parch. Alexander Robinson, gweinidog Eglwys Sefydledig yr Ysgotland, lyfr yn yr hwn y traethodd syniadau am Iesu Grist nad oeddynt yn cydfyned â chredo ei Eglwys; mewn canlyniad i'w wrthodiad i wneyd ymddiheurad am ei hereticiaeth, cafodd ei ddiarddel. Yn ddiweddar cafodd ei ordeinio yn weinidog ar yr eglwys Annibynol yn Crieff. Gan mai eglwys Annibynol ydoedd, nid oedd gan neb tuallan iddi hawl i ddyweyd "Na." Ond er hyn, ysgrifenodd dau weinidog i un o bapyrau Glasgow i gyhoeddi anathema uwch ei ben, ac i'w hysbysu na fyddai'n debyg o gael ei dderbyn yn aelod o "Undeb Annibynol Ysgotland," ar gyfrif ei syniadau; "nad oedd gan neb nad oedd yn credu yn, ac yn pregethu Duwdod Iesu Grist, a'r Iawn, trwy yr hyn y mae yn sicrhau prynedigaeth dragywyddol i ni, hawl i gael ei gydnabod nac i alw ei hun yn weinidog Annibynol." I hyn atebodd Dr. John Hunter, nad oedd Mr. Robinson wedi, nac yn, bwriadu ceisio am aelodaeth yn yr Undeb, ac hyd yn nod pe gwnai hyny, nad oedd dim yn ei syniadau oeddynt yn groes i amodau aelodaeth yr Undeb. Ysgrifena un arall ar yr un pwnc i'r papyr yn y geiriau canlynol: "Pa bryd yr egyr yr Undeb Annibynol eu llygaid, pa bryd yr egyr holl eglwysi ereill y tir eu llygaid i'r gwirionedd y gallant wasanaethu Duw a Christ yn

well trwy ddiddymu tanysgrifiad i gredo, trwy agor eu heglwysi i bawb—Undodiaid a Thrindodiaid—sydd yn ewyllysio bod yn grefyddol, ac addoli y Tad mewn ysbryd a gwirionedd, a gadael dynion yn berffaith rydd mewn materion duwinyddol?" Ar ol y frawddeg hon, ychwanega y *Christian World* mai "i hyn y rhaid iddi dd'od yn y diwedd." Da iawn, onide?

——:o:——

Yn y byd llenyddol, y llyfr sydd wedi creu'r cynhwrf mwyaf yn ystod yr wythnosau diweddaf yw Llyfr Mr. Sheldon (gweinidog Annibynol yn America), ar "Yn ei ôl Ef." Nid rhyfedd hyn. Mae arddull lenyddol y llyfr yn finiog a chyffrous, a theilynga ddarlleniad ar gyfrif hyn yn unig. Ond y mae mater y llyfr yn fwy cyffrous fyth, ac y mae'r awdwr yn trin ei bwnc mewn dull mor newydd, fel nas gall beidio tynu sylw. Amcan yr awdwr yw dangos pa gyfnewidiadau gymerent le pe bai pob Cristion yn gofyn iddo ei hun cyn cyflawni pob gweithred, "Beth wnelai Iesu pe yn ei le?" a gweithredu yn ol yr ateb. Nid yw cynwys y llyfr trwyddo yn gyfryw ag y gallwn gydsynio âg ef, nac ychwaith ei gario allan. Mae yn ymylu, mewn amryw fanau, ar gymeryd Iesu Grist fel esiampl yn rhy lythyrenol. Mae dilyn Iesu Grist yn llythyrenol yn anmhosibl. Ac nid yw hyn ychwaith yn ofynol, fel y dengys rhediad addysgiadau Iesu Grist yn amlwg. Yr hyn sy'n ofynol yw, byw yn ysbryd Iesu Grist, a cheisio trefnu ein hymddygiadau yn unol âg egwyddorion sylfaenol a pharhaol Ei grefydd. Ond hyd yn nod pe gwneid hyn, cymerai cyfnewidiadau aruthrol—bron chwyldroadol—le yn nghyflwr moesol y byd Cristionogol. Un effaith ddaionus sydd yn sicr o ddilyn llyfr Mr. Sheldon yw tynu sylw at yr hyn sydd yn tueddu i uno Cristionogion—yr agwedd ymarferol ar grefydd.

——:o:——

Cynaliwyd Cynadledd Flynyddol Cynghrair yr Eglwysi Rhyddion eleni yn Liverpool, yn yr ail wythnos yn Mawrth, pryd yr oedd oddeutu 1,200 o gynrychiolwyr y gwahanol Eglwysi Uniongred yn bresenol. Mor bell ag y gellid barnu oddiwrth yr adroddiadau, nodweddid y cyfarfodydd trwyddynt gan ddifrifoldeb ac undeb ysbryd. Llawenychwn yn y ffaith fod rhengoedd Cristionogaeth bellach yn dechreu taflu o'r neilldu eu harfau, neu, o leiaf, yn eu defnyddio i ymladd yn erbyn yr un gelyn cyffredin. Gwnaed ymgais yn Nghymru yn yr un cyfeiriad ychydig flynyddoedd yn ol; ond y mae'n amlwg, oddiwrth y claerineb nodwedda'r mudiad, nad yw'r enwadau eto yn addfed iddo. Yn hyn o beth mae'r Cymro ar ol y Sais yn mhell. Ond mae'r Sais yntau yn mhell ar ol yr Americanwr. Yn Nhalaeth Caerefrog Newydd mae cynllun ar droed i gynal Cynadledd Ddwy-flwyddol o holl gyfundebau crefyddol y dalaeth, ac y mae ei lwyddiant yn sicr, a barnu oddiwrth y croesaw sydd wedi ei roddi iddo—Eglwyswyr, Annibynwyr, Bedyddwyr, Methodistiaid, Undodiaid, Iuddewon, Byddin yr Iachawdwriaeth, &c.—oll yn uno yn eu cydsyniad,

Mae'n amlwg fod yr undeb yn nghylch hanfodion sydd yn gorwedd o dan y gwahaniaethau allanol cydrhwng y gwahanol gangenau o'r Eglwysi Cristionogol yn dechreu cael ei gydnabod. Gobeithio mai hyn fydd nodwedd fwyaf amlwg Cristionogaeth yr ugeinfed ganrif.

——:o:——

MAE Mr. O. M. Edwards, M.A., Rhydychain, Golygydd *Cymru* a *Chymru'r Plant*, wedi gwneyd cymaint dros boblogi a gwella llenyddiaeth Gymreig yn ystod y blynyddoedd diweddaf, fel nas gall ei gyfeillion (ac y maent yn lluosog) lai na'i longyfarch ar ei ddewisiad gan Ryddfrydwyr Meirionydd i lanw lle y diweddar Mr. T. E. Ellis. Mae'r dewisiad yn hynod darawiadol. Yn wir, nid hawdd fyddai cael gafael mewn dau mor debyg i'w gilydd yn mhob cymhwysder angenrheidiol i gynrychiolydd etholaeth Gymraeg. Yr oedd Ellis yn Rhyddfrydwr, yn Ymneilldwr, yn ysgolhaig, yn garwr llenyddiaeth ei wlad, yn gefnogwr i bob mudiad i ddyrchafu ei wlad, yn eang ei syniadau a'i gydymdeimlad. Mae'r rhagoriaethau hyn hefyd, fel y credwn, yn perthyn i Mr. Edwards, a diau fod y sawl a'u hadnabyddant yn dda yn gwybod am ragoriaethau ereill yn y ddau. Da fyddai i Gymru pe celai fwy o gynrychiolwyr yn y Senedd o fath y ddau hyn, a rhai fyddent yn foddlawn gosod lles eu gwlad o flaen dim arall. Nid yw'r amser hwn eto; ond y mae'n dynesu. Fel un o edmygwyr mwyaf gwresog Mr. O. M. Edwards, llongyfarchwn ef ar yr anrhydedd sydd wedi ei osod arno gan ei sir enedigol. Llongyfarchwn Rhyddfrydwyr gwlad Meirion hefyd ar eu dewisiad rhagorol. SYLWEDYDD.

Y CYRDDAU CHWARTEROL.

CYNALIWYD Cyrddau Chwarterol Pasg, 1899, yn Hen-Dŷ-Cwrdd, Cefncoedycymer, ar y dyddiau Mercher ac Iau, Ebrill 5ed a'r 6ed. Mewn cysylltiad â'n cyfarfodydd yn sir Forganwg, ac yn ardaloedd prysur y gweithfeydd, mae yna gryn bryder yn bodoli bob amser rhag ofn y bydd y cynulliadau yn fychain ac yn deneu. Mae cynaliad y Cyrddau ar ganol yr wythnos yn naturiol yn tori ar draws dyledswyddau y gweithwyr, y rhai na fynant, fel rheol, golli awr o'u hamser wedi iddynt unwaith gychwyn ar waith yr wythnos. Y canlyniad yw, fod y Cyrddau yn llawer llai lluosog na phe cynelid hwy yn gynarach yn yr wythnos, yr hyn a wneir gan yr holl enwadau, oddigerth yr enwad Undodaidd. Yr oedd y wybodaeth o'r ffeithiau hyn yn peri i ninau edrych yn mlaen gyda chryn lawer o bryder ar ein Cyrddau ar y Cefn. Yr oedd ffaith arall yn milwrio hytrach yn erbyn cynulliadau llewyrchus—yr oedd holl dwrf masnach a

thrwst yr olwynion wedi ymdawelu ddydd Llun a dydd Mawrth yn wythnos y Pasg, a'r gweithwyr i gyd yn segur; ac o braidd y gallasai neb ohonom ddysgwyl i'r gwŷr a ddyoddefasant mor enbyd oddiwrth y streic ychydig amser yn ol hebgor orig ar gyfer hyd yn nod peth mor ganmoladwy a Chyrddau Chwarterol. Yn groes hollol i'n dysgwyliadau y trodd pethau allan—yn lle ychydig bobl hwnt ac yma i'r capel, cawsom gynulleidfaoedd ardderchog yn ystod yr holl gyfres o gyfarfodydd, yn enwedig prydnawn a nos Iau.

Elfen bwysig arall yn llwyddiant y Cyrddau oedd y pregethau galluog a draddodwyd, a gallwn ddyweyd, oddiar brofiad sydd yn estyn yn ol dros dymhor maith, na chafwyd gwell Cyrddau yn mhob ystyr erioed gan yr Undodiaid. Wrth ddyweyd hyn, yr ydym ar yr un pryd yn datgan barn bwyllog lluaws ag oeddynt yn bresenol.

Yr oedd y gweinidogion canlynol yn wyddfodol: y Parchn. R. J. Jones, M.A.; John Davies, Alltyplaca; W. James, B.A., Y.H., Llandysul; Lewis Williams, Rhydygwin; Arthur Thomas, Pantdefaid; W. J. Phillips, Notais; J. E. Jenkins, Dowlais; T. J. Jenkins, Gellionen; W. T. Jones, Abertawe; D. Rees, Rhondda; Gwilym Evans, B.A., Rhydychain; J. E. Jones, Cwmbach; dau fyfyriwr ieuanc o Fanceinion, sef Mri. E. O. Jenkins a John Evans; y Parch. J. Hathren Davies, gweinidog yr Hen-Dŷ-Cwrdd; a'r gweinidogion lleol canlynol, perthynol i enwadau ereill: y Parchn. T. Salathiel (B.), Cadeirydd Bwrdd Ysgol y Faenor; Jacob Thomas (A.); ac E. W. Thomas (A.).

Arweiniwyd yn y gwasanaeth defosiynol nos Fercher gan y brawd ieuanc Mr. E. O. Jenkins, a thraddodwyd dwy bregeth odidog iawn gan y Parchn. Arthur Thomas a L. Williams. Clod bythol fyddo i ymdrechion diflino y tadau yn y ffydd Undodaidd, a chysegredig byth fyddo y coffa am y cyfryw ohonynt ag ydynt wedi croesi tuhwnt i'r llen; ac yr ydym yn mawr lawenhau am fod ein henwad anwyl yn meddu ar olyniaid mor deilwng o'r tadau yn y gweinidogion ieuainc a ofalant am angenion crefyddol ein heglwysi yn Nghymru ar hyn o bryd, ac a gariant yn mlaen y gwaith gogoneddus a berthyn i'n ffydd syml. Llwyddiant mawr iddynt yn eu cylchoedd pwysig.

Yr oeddis wedi trefnu i gyfarfod boreu dydd Iau gael ei neillduo at ymdrin â gwahanol faterion yn dal perthynas â'r enwad. Dechreuwyd y cyfarfod hwn trwy ddarllen a gweddïo gan y Parch. D. Rees, Pentre Rhondda. Ceir adroddiad o'r gweithrediadau yn y rhifyn hwn gan Ysgrifenydd y Gymdeithas.

Dechreuwyd y gwasanaeth prydnawnol gan y Parch. T. J. Jenkins, Gellionen, a phregethwyd gan y Parch. W. T. Jones, Abertawe, yn Saesoneg, a chan y Parch. John Davies yn Gymraeg. Mae yn anhawdd dyweyd gormod am y ddwy bregeth odidog hon—yr oedd yn wledd o'r fath oreu i wrando arnynt. Yr ydym wedi clywed ein hen gyfaill Mr. Davies lawer tro, ac nid ydym byth yn blino ar ei hyawdledd grymus; ond dyma y tro

cyntaf i ni gael y fraint o wrando ar Mr. Jones. Newydd ddyfod drosodd y mae efe oddiwrth y Methodistiaid Calfinaidd, ac nid ydym yn synu eu bod hwy yn hwyrfrydig iawn i ollwng eu gafael yuddo; mae yn bregethwr nerthol, ac yn sicr o fod yn gaffaeliad mawr i'r eglwys Undodaidd yn Abertawe.

Yn nghyfarfod yr hwyr, darllenwyd a gweddïwyd gan y Parch. Lewis Williams, a chafwyd dwy bregeth ragorol yn Gymraeg gan y Parch. W. T. Jones a Mr. Gwilym Evans, B.A.

Cyn dwyn y Cyrddau i derfyniad, rhoddwyd croesaw cyhoeddus i'r Parch W. T. Jones, ar ei waith yn ymuno am y tro cyntaf â'r Undodiaid mewn Cyrddau Chwarterol. Siaradwyd geiriau o groesaw iddo gan weinidog y lle ar ran Undodiaid Morganwg, gan y Parch. John Davies yn darawiadol iawn ar ran y frawdoliaeth yn sir Aberteifi, a chan y Parch. W. J. Phillips dros y Gymdeithas Seisonig. Atebodd Mr. Jones yn hynod effeithiol a phwrpasol.

Yr oedd y parotoadau gan gyfeillion y Cefn yn bobpeth a ddymunid, ac yr ydym yn wir ddiolchgar iddynt am eu ffyddlondeb a'u serchogrwydd. Gwnaeth y cantorion eu rhan hwythau yn dda, a boed iddynt dderbyn ein diolchgarwch am y modd calonog y darfu iddynt ymdaflu i'w gwaith.

CYFAROD Y PWYLLGOR.

Mae hanes y cyfarfodydd yn llaw cofnodydd arall. Nid oes genyf ond ysgrifenu nodyn byr, i roi hanes gweithrediadau y Pwyllgor a gyfarfu boreu ddydd Iau am 11 o'r gloch.

Darllenwyd a gweddïwyd gan y Parch. D. Rees, Pentre; ac yn absenoldeb Llywydd ac Is-lywydd y Gymdeithas, cymerwyd y gadair gan weinidog y lle. Gwnaed y penderfyniadau canlynol:—

1. Fod y cyfarfod blynyddol nesaf yn Capel Fadfa, i gael ei gynal ar y dyddiau Mercher ac Iau, Mehefin 21ain a'r 22ain. Anerchiad y Cadeirydd, y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, am 11 o'r gloch ddydd Iau. Y Pwyllgor am 9, a phregeth flynyddol y Gymdeithas am 2, gan y Parch. T. J. Jenkins, Gellionen. Gwasanaeth hefyd nos Fercher yn gystal a nos Iau.

2. Fod y casgliad blynyddol yn yr holl eglwysi at y Gymdeithas i gael ei wneyd mor agos ag a fyddo bosibl i'r Sul cyntaf yn Mehefin (Mehefin 4ydd).

3. Fod y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, y Llywydd am y flwyddyn, i gynrychioli y Gymdeithas yn nghyfarfod blynyddol y *British and Foreign Unitarian Association* a gynelir yn wythnos y Sulgwyn.

4. Ar ol llawer o ymddyddan dyddorol ar yr awgrymiad a wnaed gyda golwg ar gael Pwyllgor i gymeradwyo ac edrych i mewn i gymhwysderau ymgeiswyr am y weinidogaeth yn Nghymru *(Advisory Committee)*, penderfynwyd i ohirio ystyriaeth y mater hyd y cyfarfod blynyddol. W. JAMES, *Ysg.*

Y DIWEDDAR T. E. ELLIS.

TOM ELLIS yn ei fedd! Anhawdd iawn ydyw sylweddoli y ffaith alarus! Yr oedd yn amser goreu ei fywyd, wedi cyrhaedd y safle, o ran oedran, lle mae bywyd y gwleidyddwr yn gyffredin ond megys yn dechreu; ac yr oeddym ni, Gymry ieuainc yn enwedig, yn ei achos ef, yn edrych yn mlaen at fywyd, nid yn unig llwyddianus, ond hefyd gwir fendithiol i'w wlad. Ond mae'r gobaith wedi cael ei ddiffodd, mor bell ag y mae a fyno Tom Ellis âg ef, a bywyd defnyddiol wedi cael ei dori i lawr. Yn ngwyneb y ffaith, mae llawer iawn o feddyliau yn ymgynyg i mi. Paham y symudir dynion defnyddiol mor foreu, ac y cedwir dynion diddefnydd yn mhell dros derfyn yr hyn a elwir dyddiau yr addewid? Paham y diffoddir gobeithion cenedl gyfan pan y mae fel pe ar drothwy gwlad yr addewid —amser gwell? Gellid yn hawdd ofyn llawer o gwestiynau ereill o'r un natur, heb fod yr un cam yn nes at oleuni. Yr unig ateb ag sydd gyson yw, fod y byd a'i drefniadau yn llaw Un anfeidrol ddoeth, a'i fod Ef yn sicr o beri i bob peth, y melus a'r chwerw, y dymunol a'r annymunol, i gydweithio er daioni yn y diwedd. Hefyd, cwestiynau yw y rhai hyn a ofynir gan ddyn pan y mae cymylau yn gordoi awyrgylch ei fywyd. Pan y gwasgerir y cymylau, gwel nad yw'r un achos daionus yn ymddibynu ar un dyn. Mae y dynion goreu yn gorfod myned, er cymaint y golled ar eu hol; eto, yn yr amser priodol, daw ereill i lanw eu lle, ac i gario y gwaith yn y blaen.

Yr oedd Tom Ellis yn gynrychiolydd ardderchog o'r cymeriad Cymreig yn yr agwedd oreu ohono. Nid yn aml y ceir engraifft mwy nodedig o wroldeb yn gorchfygu pob anhawsder, o ffyddlondeb i amcan goreu bywyd, o hunangysegriad i'r gwaith o wasanaethu ei wlad a hyrwyddo ei daioni, nag a geir yn ei fywyd ef. Wedi cael ei ddwyn i fyny ar aelwyd gyffredin, ond aelwyd gwir grefyddol, yn nghanol gwlad, yn mhell o gyrhaedd y cyfleusderau a dybir yn angenrheidiol i bob un sydd am ddringo i enwogrwydd, yn mhen ychydig flynyddau (llai na 30), trwy ei yni, a'i weithgarwch, a'i barodrwydd i fanteisio ar bob cyfleusdra, mae yn dringo i fyny nes cyrhaedd un o'r swyddi mwyaf pwysig a chyfrifol yn Senedd ei wlad; a thrwy yr holl lwyddiant, glynodd yn dyn wrth addysg yr aelwyd, a'r capel, a'r grefydd a broffesai. Ni wnaeth llwyddiant yr un cyfnewidiad ynddo; fel, pan ddychwelai i'w wlad ac i'w gymydogaeth, ar ol bod yn ymgymysgu â mawrion y deyrnas, yr oedd yn hollol yr un Tom Ellis ag ydoedd cyn iddo eu gadael am y tro cyntaf.

Am ei wasanaeth i'w wlad yn ystod ei fywyd cyhoeddus byr, ond cynwysfawr, anhawdd dyweyd llawer yn awr. Daw gwerth y gwasanaeth hwn i'r golwg yn fwy tanbaid yn mhen amser eto. Er hyny, mae y ffeithiau canlynol yn eithaf gwybyddus i bob Cymro sydd yn gwybod hanes Cymru yn ystod yr 20 mlynedd

diweddaf. Yn ystod y cyfnod hwn, mae deffroad cenedlaethol wedi cymeryd lle nas gwelwyd ei fath er yr amser y bu hen gewri y pwlpud Cymreig yn ei chyffroi trwy eu hyawdledd anorchygol; y mae cyfleusderau addysg wedi eu helaethu; mae pob Cymro bellach yn ei theimlo yn anrhydedd i gydnabod ei hun yn Gymro yn mhob man; mae Cymru, yn lle bod yn genedl fechan ddirmygedig, fel yr oedd yn marn y Sais hyd o fewn ychydig flynyddau yn ol, wedi ei dyrchafu i safle uwch yn eu barn, fel y siaredir am dani bellach gyda pharch, ac nid gyda dirmyg. Mae y cyfnewidiadau hyn, a llawer mwy, wedi dygwydd o fewn i'r 20 mlynedd diweddaf. Mae rhan fawr o'r clod am hyn yn ddyledus i Tom Ellis; ni ddywedwn fod yr oll yn perthyn iddo—ni fyddai hyny yn iawn. Yr oedd ereill wedi bod yn gweithio hefyd, ond yn ystod ei fywyd cyhoeddus byr, ond cynwysfawr, mae Tom Ellis wedi bod yn allu sydd, trwy ddylanwad ei sêl, a'i ymroddiad, a'i ysbryd gwladgarol ac anhunanol, wedi tanio ereill â'r un ysbryd. Bellach ei le ar y ddaear nid edwyn ddim ohono mwy, ac y mae Cymru lawer yn dlotach o'i golli. Ond, er wedi ymadael, mae dylanwad ei fywyd, fel dylanwad bywyd pob dyn da, yn aros. Ac fe erys. Ffarwel, gyfaill anwyl, am ychydig.

EDMYGYDD.

A DDAETHANT HWY? (ARE THEY COME?)

A frequent inquiry of the Dying; of my Wife a few hours before her Death.

A DDAETHANT hwy? a ddaethant i fy nol?
A ddaethant hwy? Gymdeithion bore oes?
A ddaeth fy mam i'm cym'ryd yn ei chol?
A 'nhad, i'm dwyn i wlad heb gur na chroes?
Atebwch.—Dyna ergyd wrth y drws—
Un ysgafn—ai yn nghwsg neu'n effro fi?
Yn ngofal Duw y b'och, fy mhlant bach, tlws,
Efe a'ch tad fo'n dad a mam i chwi.

A ddaethant hwy? Beth yw y sibrwd per
Sy'n tòno yn fy nghlustiau yr awr hon?
Fy llygaid! O mor hardd, mor llon y ser!
Y nefoedd! Y mae hiraeth yn fy mron
Am ei gorphwysdra. Gwan, O egwan wyf—
Pob asgwrn sydd yn curio am y bedd;
O beth! O beth a roddodd im' fath glwyf?
Maent *wedi bod*—'rwy'n myn'd i fythol hedd!

Y Parch. W. THOMAS, M.A. (Gwilym Marles).

Gorphenaf 30*ain*, 1867.

MANION AC HANESION.

WRTH adolygu Llyfr poblogaidd y Parch. Mr. Sheldon, *In His Steps*, y mae'r *Schoolmaster*, am Ebrill 8fed, yn gwneuthur yr ymholiad pwrpasol: "If Jesus was God, can we expect to do as He did?" "Os oedd Iesu yn Dduw, a allwn ni ddysgwyl gwneuthur fel y gwnaeth Efe?"

HEN-DY-CWRDD ABERDAR.—Enillodd Myfanwy Lewis, merch Lewis Lewis, Clive-street, Aberdar, wobr o 21s. mewn cystadleuaeth agored yn Eisteddfod Fawr Mountain Ash, y dydd o'r blaen. Yr oedd 31ain yn cystadlu—rhai ohonynt heibio canol oed. Y mae Myfanwy tuag wyth oed. Gwobr am adrodd "Dafydd y Gareg Wen" oedd. Treiniwyd hi gan Mr. Ifano Jones, o Lyfrgell Rydd Caerdydd.

CAPELYGROES.—Cynaliodd Ysgol Sul perthynol i'r lle uchod ei gwyl dê flynyddol ar y 13eg o Fawrth. Yr oedd yr hin yn hynod ffafriol i wledd gyffelyb, a daeth tyrfa hyfryd yn nghyd yn gynar, er cyfranogi o'r danteithion blasus a barotoisid erbyn yr achlysur. Gwledd ydoedd yn wir ystyr y gair, ac mae ein diolchiadau yn ddyledus i'r boneddigesau a fu yn gweini wrth y byrddau am dani. Yn yr hwyr cafwyd cyfarfod adloniadol, o dan arweinyddiaeth Mr. T. Thomas, C.M., Llanwnen, gyda ein gweinidog yn y gadair. Da genyf i w coffa bod hwn wedi troi allan yn un o'r cyfarfodydd mwyaf hwylus a llwyddianus y bûm ynddo erioed. Ar ol y diolchiadau arferol, aeth pawb i'w gwahanol gartrefi wedi eu llwyr boddloni.—Sul, Ebrill 9fed, rhoddodd y Parch. E. E. Jenkins rybudd o'i fwriad i roddi i fyny ei ofal gweinidogaethol o'r eglwys uchod. Bwriada Mr. Jenkins fyned trwy gwrs o efrydiaeth pellach yn Manchester College, Rhydychain. Bydd yn traddodi ei bregeth ymadawol ar y Sul cyntaf yn Gorphenaf. Yn ystod ei weinidogaeth y mae Mr. Jenkins wedi enill iddo ei hun le gwresog yn nghalonau yr aelodau, a chwith ganddynt i ymadael ag ef. Mae yn ymadael gyda dymuniadau goreu pawb. Ar ran ei luaws cyfeillion yn mhob man, eiddunwn iddo lwyddiant mawr yn ystod ei arosiad yn Rhydychain; a'n dymuniad yw y dychwela ar ddiwedd ei arosiad yno i'r hen wlad, i wneyd ei ran yn y gwaith o "godi'r hen wlad yn ei hol."

MYNWENT CAPELYGROES. — Efallai nad yw yn hysbys i bawb ag sydd yn teimlo bod yna gysylltiad rhyngddynt â Mynwent y lle uchod, bod yr hen Fynwent yn ogystal ag wedi llanw. Da genyf, er hyny, yw crybwyll bod y gynulleidfa wedi llwyddo i gael haner erw o dir, trwy garedigrwydd *trustees* Llwyngroes, er ei helaethu; a phwy bynag garai roddi ychydig at y treuliau, derbynir pob rhodd yn ddiolchgar gan y gweinidog.

Y PARCH. W. T. JONES.—Deallwn fod trigolion Whitchurch, ger llaw Caerdydd, lle bu Mr. Jones yn llafurio am flynyddoedd cyn ymuno â'r Undodiaid, wedi cyflwyno iddo anrhegion gwerthfawr ar ei ymadawiad â'r lle.

CYMANFA GANU MORGANWG.—Bu Mr. Hevin Williams, arweinydd y Gymanfa hon, ar ei ymweliad cyntaf âg Aberdar a'r Cefn, ddydd Sul, Ebrill 16eg. Dywed iddo gael ei foddhau yn fawr yn y canu. Gobeithio yr ymroa pob eglwys i wneyd y Gymanfa nesaf yn un odidog yn mhob ystyr.

ARHOLIAD YR YSGOL SUL. — Carwn adgofio ein pobl ieuainc y cymer yr Arholiad hwn le eleni nos Iau, Mai 4ydd.

ABERTAWE.—Dydd Llun, Ebrill 10fed, cynaliwyd cyfarfodydd yn y lle hwn i roesawu y Parch. W. T. Jones yn weinidog ar yr Eglwys Undodaidd. Yr oedd y cynulliadau yn ardderchog, a rhagolygon y gweinidog ieuanc yn addawol iawn.

RHYDYGWIN.—Cynaliwyd Gwyl Dê flynyddol Ysgol Sul y lle uchod dydd Gwener y Groglith. Y boneddigesau caredig a ddarparodd ar gyfer y wledd i'r corff oedd Mrs. Jones, Cwmscawen; Mrs. Hughes, Rhydyfydir; a Mrs. Davies, Llainffynon. Yr oedd pawb ar ol y wledd ardderchog yn y prydnawn mewn hwyl dda at waith y cyfarfod yn yr hwyr; a chafodd pawb eu boddloni gan y cantorion a'r adroddwyr.

Cadeiriwyd gan y Parch. B. Carolan Davies, Ty'nygwndwn, a llywyddwyd gan y gweinidog.

EGLWYS UNDODAIDD PENTRE.—Y *Quilt* yn barod!—Y mae y *Quilt* yn cynwys 280 o ddarnau llian, a chynifer o enwau cyfeillion Undodaidd, ac ereill, wedi eu gweithio mewn sidan lliwiedig arnynt. Mesura 2½ wrth 2¼ o latheni. Gwerth y defnyddiau yn unig, £2 11s. Gwahoddir cynygion. I fod mewn llaw erbyn yr Wyl Dê flynyddol, Mai 18fed, pan y bydd y *Quilt* yn cael ei arddangos. Yr elw at ddyled y capel.

DOWLAIS.—Sul, Mawrth 26ain, yr oedd y Parch. E. E. Jenkins, Capel-ygroes, yn gwasanaethu yma yn y boreu a'r hwyr, a chafwyd pregethau nerthol a dylanwadol i gynulliadau llawn a gwresog. Yn ystod gwasanaeth yr hwyr, bu i'n parchus weinidog, y Parch. J. E. Jenkins, dderbyn tri o aelodau newydd at y frawdoliaeth. Y mae yn llawenydd mawr genym ddyweyd fod y tri yma yn gwneuthur nifer yr aelodau newydd a dderbyniwyd oddiar yr haf diweddaf yn ddeuddeg; a'n gweddi ni yma fel cynulleidfa yw, Iechyd a nerth a gaffo ein gweinidog ieuanc i barhau i weithio yn ein plith, a llwyddiant i'w lafur yn y dyfodol, fel ag y mae wedi bod yn ystod y ddwy flynedd y mae yma fel bugail ar yr eglwys.

Y WIG.—Cynaliwyd cyfarfodydd blynyddol y capel uchod Sul a Llun y Pasg diweddaf, Ebrill 2il a'r 3ydd, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. T. J. Jenkins, Gellionen; J. E. Jenkins, Dowlais; a W. J. Phillips, Nottais. Cafwyd cynulleidfaoedd da, pregethu grymus ac adeiladol, a gwrandawiad astud. Gobeithiwn weled yn y dyfodol buan fod yr had da a hauwyd wedi cael dyfnder daear, a'i fod yn dangos allan ei brydferthwch mewn bywydau prydferth, duwiol, a da.

Y GRAIG A GELLIONEN.—Cafwyd cyfres o gyfarfodydd pregethu campus gan braidd y capelau uchod, Sul a Llun, Ebrill 23ain a'r 24ain. Arwyr y pwlpud oeddynt y Parchn. D. Rees, Rhondda, a W. T. Jones, Abertawe. Traddodasant yn rhagorol. Mwynhawyd y gwahanol gyrddau gan bedair tyrfa o bobl, yn gynwysedig o amryw sectau. Yr oedd y Samariaid a'r Nazareaid yn ymgyfeillachu yma; yr hyn yw ffynonell gwir grefydd. O! am nerth i dynu y byd crefyddol yn nes ato ei hun. Dymunolwyd y drysorfa gan roddion hael y bobl i gyd. Diolchwn ar ran y gweinidog a'r gynulleidfa i bawb am eu helusenau.

TREBANOS.—Llawen genym hysbysu pwrcaswyr yr YMOFYNYDD, i Seindorf Arian Trebanos ddianc allan yn ail oreu o naw o Seindyrf, yn Mountain Ash, y Pasg diweddaf. Maintioli y wobr oedd £7, a chwpan arian prydferth. Dymunwn hir oes i'r Seindorf a'i arweinydd yn y dyfodol, i wneyd gwaith mawr eto. "Molwch Ef â sain cornet."

PRIODASAU.

EBRILL 4ydd, yn Brondeifi, gan y Parch. R. C. Jones, Mr. William David Williams, Postgwyn, â Miss Elizabeth Davies, Penlan—y ddau o blwyf Pencareg.

EBRILL 8fed, yn nghapel Twynyrodyn, Merthyr, gan y Parch. Hathren Davies, Cefn, David Watkins âg Anne Jones—y ddau o'r Cefn, a'r ddau yn aelodau yn yr Hen-Dŷ-Cwrdd.

Bywyd hir heb bryder bron
Fo byth yn eiddo'r ddeuddyn llon.

MARWGOFION.

MAWRTH 3ydd, yn y Glyn, Talgareg, yn 74 oed, Eleanor Thomas, gweddw y diweddar David Thomas, Rhydwen. Treuliodd y wraig dda hon ei hoes yn ddiwyd a defnyddiol. Magodd deulu lluosog o blant, ydynt erbyn heddyw yn

anrhydedd i'w henw, llawer ohonynt yn aros yn yr hen gymydogaeth, ac yn ffyddlon i ddal i fyny lamp y gwirionedd yn Nghapel y Fadfa, fel y bu eu mam trwy y blynyddau. Claddwyd hi y dydd Mawrth canlynol yn mynwent y capel, pan y gweinyddwyd gan y Parchn. W. James, B.A., Brynhyfryd, a T. Thomas, Green Park. Yr oedd anerchiad Mr. Thomas ar lân y bedd yn hynod dyner ac effeithiol, gan y cynwysai adgofion dymunol am yr hen amser gynt, pan oedd yr ymadawedig ag yntau yn gydysgolheigion.

MAWRTH 3ydd, yn 65 oed, Thomas Lewis, Cambrian Place, Llandysul. Dyma un o'r cymeriadau mwyaf gwreiddiol yn y parthau hyn wedi myn'd. Adnabyddid ef fel *character* ar ei ben ei hun yn mhell ac agos. Meddai alluoedd meddyliol yn mhell uwchlaw y cyffredin. Gyda'r ychydig gyfleusderau a gafodd yn ystod ei fywyd, gwnaeth ddefnydd rhagorol ohonynt; ac yr oedd ganddo gof mor afaelus a chyfoethog, fel, rhwng y cwbl, yr oedd bod yn ei gwmni a gwrandaw ar ei ymddyddan yn llawn dyddordeb ac adeiladaeth. Mawr oedd ei sêl dros Ryddfrydiaeth mewn crefydd yn gystal a gwleidyddiaeth. Mewn dadl ar y pynciau yma, yr oedd yn anorchfygol. Bu yn ddarllenwr mawr tra y parhaodd ei olygon. Yr oedd rhanau helaeth o'r Beibl ar ei gof, ac nid ychydig o'r feirniadaeth ddiweddar arno yr oedd wedi wneyd yn eiddo iddo ei hun. Rhagorai hefyd fel cerddor, a bu o wasanaeth mawr yn nyddiau ei nerth i ganiadaeth y cysegr yn y Graig yn ogystal a manau ereill. Heblaw hyny, yr oedd yn gymeriad trwyadl, gonest, diargyhoedd, diysgog fel y graig, ac anhyblyg yn ngwyneb pob cymhelliad i'w droi oddiar yr hyn a gredai ef oedd ffordd dyledswydd ac egwyddor. Claddwyd ef y dydd Llun canlyncl yn mynwent Eglwys y plwyf, y Parch. W. James, B.A., Brynhyfryd, yn gwasanaethu yn y tŷ, a'r ficer yn yr Eglwys. Daeth cynulleidfa luosog yn nghyd y nos Sul ar ol hyny i'r Graig i wrando ar ei bregeth angladdol yn cael ei thraddodi gan Mr. James. Cymerwyd y gwasanaeth defosiynol gan y gweinidog, y Parch. Arthur Thomas.

MAWRTH 12fed, yn 18 oed, Evan Thomas, unig fab Mr. a Mrs. Thomas, 18, Broad Street, Dowlais. Yr oedd yr ymadawedig wedi dyoddef am amser maith oddiwrth anhwyldeb tumewnol; nid oedd wedi gweithio ond rhyw saith mis yn ystod y tair blynedd diweddaf, ac felly ni ddaeth y diwedd yn sydyn. Bu iddo dreulio bywyd tawel iawn pan yn iach, fel bachgen ieuanc, ac yr oedd yn berchen talent, yn neillduol felly mewn un cyfeiriad, fel chwareuwr perdoneg, yn yr hyn yr oedd ei gydnabod yn proffwydo dyfodol dysglaer iawn iddo. Yr oedd wedi ymaelodi mewn capel Methodistaidd, er fod ei dad yn mynychu capel yr Undodiaid, a'i fam yn myned at yr Annibynwyr. Claddwyd ef prydnawn y dydd Iau canlynol yn *cemetery* y Pant, pryd y daeth torf luosog yn nghyd, yn enwedig pobl ieuainc, yn mhlith pa rai yr oedd aelodau ei ddosbarth ef yn yr Ysgol Sul yn cymeryd rhan flaenllaw yn y gladdedigaeth. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog. Mae wedi gadael tad, mam, a chwaer, yr hon sydd ar hyn o bryd yn America, yn nghyda pherthynasau lawer, i alaru yn ddwys ar ei ol.

MAWRTH 16eg, yn 31 oed, Josiah, mab Josiah a Letitia Rees, Tanrhiw, Llanwenog, a brawd ieuengaf y Parch. David Rees, Pentre Rhondda. Claddwyd ef yn mynwent Capelybryn, a chyflawnwyd y gwasanaeth angladdol gan y gweinidog, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. L. Williams, Rhydygwin. Yr oedd lluosogrwydd yr angladd yn ddangoseg o'r parch a deimlid tuag ato ef a'i deulu yn y gymydogaeth.

MAWRTH 19eg, Alice, anwyl wraig Mr. Thomas Morgan (Llanharan), Clifton Street, Aberdar, yn 51 oed. Merch oedd Mrs. Morgans i'r diweddar Mr. Evan Howells, Maesgwyn, a chwaer i'r cerddor adnabyddus Mr. R. Howells. Cafodd gystudd hir a thrwm, a goddefodd ef gydag amynedd canmoladwy. Claddwyd hi ddydd Mercher, y Parch. Jenkin Thomas yn gwasanaethu. Heblaw ei gwr, y mae wedi gadael mab a dwy ferch i alaru eu colled. Nodded yr Arglwydd hwynt.

MAWRTH 22ain, David Parry, mab bychan Mr. a Mrs. Stephen Parry, Cwmanne, ger Llanbedr, yn 2 flwydd oed. Claddwyd gweddillion y bychan yn mynwent Brondeifi, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle.

MAWRTH 24ain, ar ol blynyddoedd o gystudd, yn 49 oed, William Williams, Glynhir, plwyf Llanbedr, gan adael gweddw a thri o blant i alaru yn ddwys ar ei ol. Claddwyd ef yn mynwent Alltyplaca. Gweinyddwyd ar yr achlysur galarus yn gymhwys iawn yn y tŷ gan y Parch. Mr. Evans (T.C.), Borth; ac yn y capel a'r fynwent gan y gweinidog. "Wedi marw, yn llefaru eto." Nawdd y Nef i'r weddw a'r amddifaid.

MAWRTH 26ain, o'r darfodedigaeth, David Jenkins, 33, Bridge Street, Llanbedr, yn 25 mlwydd oed. Bu y brawd ieuanc yma yn nychu am tua naw mlynedd, ac ymladdodd yn wrol, ond yn amyneddgar a siriol, i geisio trechu y gelyn oedd wedi gafaelu mor dŷn yn ei gyfansoddiad; ond methu wnaeth pob ymdrech o'i eiddo ef ac ereill; ac ar y dydd uchod, ehedodd yr ysbryd gwrol allan o'r babell nychlyd i'r wlad well i orphwys encyd ar ol y frwydr faith a chaled, a hyny gan adael mewn galar fam, a brodyr, a chwiorydd, heb son am berthynasau ereill a chylch eang o gyfeillion hen ac ieuainc. Nid profiad melus i estron yw gweled dyn ieuanc fel yma yn nghanol ei obeithion yn cael ei ddal gan afiechyd, yn graddol ddihoeni, ac am hir flynyddau yn araf deithio at swn llifddyfroedd yr afon; ond y profiadol yn unig fedr sylweddoli chwerwder profiad perthynasau agos ac anwyl a'i hebryngant ef yn araf o gam i gam, gan geisio yn ofalus ddigaregu y ffordd ac ysgafnhau ei feichiau nes cyrhaedd glân y dwr Yr oedd yn aelod o eglwys Brondeifi, ac yn aelod defnyddiol, gweithgar, a didwrw; a pharhaodd i lanw gwahanol swyddau perthynol i'r capel nes ei lwyr analluogi gan wendid. Ar ddydd ei angladd, daeth torf luosog yn nghyd i ddangos eu parch diffuant i'r ymadawedig, a'u cydymdeimlad â'r galarwyr. Claddwyd ei weddillion yn mynwent Eglwys y plwyf, a gwasanaethwyd yno gan yr offeiriad, ac yn y tŷ gan weinidog Brondeifi.

MAWRTH 28ain, yn 31 mlwydd oed, Mrs. Sarah Rees, priod Mr. John Rees, Pontwelly. Cafodd yr ymadawedig gystudd blin; ac yr oedd iddi air da gan bawb a'i hadwaenai. Dydd Gwener y Groglith, daeth tyrfa luosog yn nghyd i dalu y gymwynas olaf iddi, pan y cludwyd yr hyn oedd farwol ohoni i'w claddu yn mynwent Eglwys y plwyf. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. Arthur Thomas, ac yn yr Eglwys ac ar lan y bedd gan y ficer. Gadawodd briod a thri o blant bychain i alaru ar ei hol.

MAWRTH 28ain, yn 82 mlwydd oed, Daniel Rees (yn fwy adnabyddus, "Dani Daniel"), Tailor's Arms, Llandysul. Yr oedd yr ymadawedig wedi bod yn ei ddydd yn gerddor gwych. Bu ef a'i bedwar brawd a'i bedair chwaer yn enwog drwy yr holl ardal fel cerddorion a chantorion heb eu bath. Yr oeddynt mor boblogaidd fel na feddyliai neb gynal cyngerdd heb eu bod hwy yn cymeryd rhan ynddo. Yr oedd ef hefyd yn un o'r ffyddloniaid cyntaf pan gychwynwyd achos Undodaidd yn Llandysul. Claddwyd ei weddillion marwol ddydd Gwener y Groglith yn mynwent Eglwys y plwyf. Gwasanaethwyd a phregethwyd ar yr achlysur gan y Parch. Arthur Thomas a chan ficer y plwyf. Ni oroesodd ei briod ond ychydig wythnosau, yr hon a gladdwyd hefyd yn mynwent y plwyf, gyda'r un personau yn gwasanaethu.

MAWRTH 29ain, ar ol cystudd byr, ond caled, Mary Jones, Penrhiwcoele, plwyf Llandysul, yn 56 mlwydd oed. Yr oedd yr ymadawedig yn aelod selog yn eglwys Llwynrhydowen, a theimlai frwdfrydedd mawr dros yr achos. Collodd ei phriod chwe' mlynedd yn ol, pryd y gadawyd hi yn weddw gydag wyth o blant i ofalu am danynt, yr ieuengaf ohonynt y pryd hwnw yn ddim ond pedair oed. Yr oedd yn gofyn ymdrech diflino, yn nghyda llawer o ddarbodaeth a medrusrwydd ar ei rhan, i'w dwyn i fyny fel y gwnaeth. Gofalodd eu hyfforddi yn mhen eu ffordd drwy eu harfer i fynychu yr Ysgol Sul yn gyson er yn ieuainc. Perchid hi yn fawr gan ei holl gydnabod fel dynes dawel a phwyllog, ac fel mam dyner a gofalus. Y Sadwrn canlynol, gosodwyd ei gweddillion i orwedd yn nghladdfa brydferth capel newydd y Llwyn, pryd y gwasanaethwyd ar yr amgylchiad galarus, i glywedigaeth tyrfa anarferol o luosog, gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca. Yr Arglwydd a fendithio y plant, ac a'u nertho i ddywedyd mai Ei ewyllys Ef a waeler yn yr amgylchiad hwn, fel mewn pob amgylchiad arall.

MAWRTH 31ain, yn nhŷ ei ferch a'i fab-yn-nghyfraith, 5, Pendaren Street, Aberdar, Thomas Evans, y gof, yn 69 oed. Yr oedd Evans yn ŵyr, y diweddaf, dybiwn, i'r diweddar Barch. Thomas Evans (Tomos Glyn Cothi), Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar. Daearwyd ei weddillion y Mercher canlynol yn y gladdfa gyhoeddus, y Parch. R. J. Jones, M.A., yn gwasanaethu.

EBRILL 1af, Hannah Davies, Cwmanne Shop, ger Llanbedr, yn 65 mlwydd oed. Dyma un arall o ffyddloniaid diamheuol eglwys fechan Brondeifi wedi canu yn iach i'r fuchedd hon a'i phleserau a'i gofidiau, ac wedi glanio draw ar ororau y wlad well. Nid un wedi ei geni â'r llwy arian yn ei genau oedd Hannah Davies, ond un a wyddai yn ieuanc beth oedd ymladd âg anhawsderau, ac un a ddysgodd y wers werthfawr o hunanymddibyniaeth drwy anhawsderau. Wedi marw ei mam, syrthiodd y goelbren arni hi i gadw tŷ i'w thad a chartref i'r plant ereill; ac er mwyn gwneyd y golled i fyny mor bell ag y medrai hi, nid oedd yr un aberth na gwasanaeth yn ormod ganddi; ac er fod y plant ereill yn gwybod mai eu chwaer oedd, ni fedrent lai rywfodd nag edrych arni fel mam. Bu yn gwylio wrth wely angeu ei thad, ac yn gweini yn dyner am flynyddoedd wrth wely angeu brawd ag oedd yn anwyl iawn ganddi, ac wrth welyau cystudd ereill, a hyny pan nad oedd ei hunan yn haner iach; ac yr ydym yn credu ei bod bob amser, beth bynag fyddai yn wneyd, yn ceisio cael cydwybod ddirwystr tuag at Dduw a dynion. Gadawodd frodyr a chwiorydd mewn galar ac i gwyno eu colled ar ei hol. Yr oedd yr angladd lluosog a gafodd yn dangos yn amlwg y parch cyffredinol oedd iddi gan ei chydnabod. Claddwyd ei gweddillion yn mynwent Capelygroes. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. R. C. Jones, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. E. E. Jenkins, Capelygroes, a David Evans, Cribin.

EBRILL 4ydd, John Emrys Williams, baban bychan Mr. a Mrs. John Williams, Efailfach, ger Llanbedr, yn 10 mis oed. Claddwyd ei weddillion yn mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan offeiriad y plwyf, yn y capel gan weinidog y lle, ac ar lan y bedd gan y Parch. E. Evans (A.), Llanbedr.

EBRILL 5ed, o'r darfodedigaeth, Miss Kitty Rees, Felindre, ger Llanbedr, yn 27 mlwydd oed. Yr oedd Miss Rees yn ferch ieuanc hynod hawddgar ac hoff gan ei chydnabod, a gorchwyl anhawdd i'w mam, a'i brodyr, a'i chwiorydd oedd ffarwelio â hi yn angeu. Claddwyd yr hyn oedd farwol yn mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. Joseph Jones (M.C.), Llanbedr, ac offeiriad y plwyf; yn y capel gan y Parch. R. C. Jones; ac ar lan y bedd gan y Parch. E. Evans (A.), Llanbedr.

EBRILL 5ed, yn 45 oed, James Evans, Station House, Pontardawe. Dyma frawd coethedig arall o braidd Undodaidd y cylchoedd hyn wedi tewi yn swn y murmuron diweddaf. Ambell waith y cyfarfyddem ei gyffelyb; brawd agos a chyfaill difyr. Yn yr ysbrydol yr hoffai fod bob amser; am y nefol y caraí siarad, ac yn y Dwyfol y cerddai tra y parhaodd anadl einioes yn ei deml. Nid byth yr edrychai ac y bwriai ei lygaid i'r ddaear isod, ond i'r nefoedd uchod. Ac hyd ei farwolaeth, dyoddefodd gystuddiau celyd yn y teimlad a'r gobaith mai "Dy ewyllys Di, O Dad, a wneler." Meddai duedd awenyddol bardd. Sibrydodd amryw geinion melusion. A ydynt ar gael? Yr oedd yn aelod parchus gyda'r Undodiaid; sylweddolwyd hyny yn ei gynhebrwng anrhydeddus, yr hwn gymerodd le y Sadwrn dilynol. Daear ei feddrod yw mynwent feudwyol Gellionen. Gwasanaethwyd yn bregethwrol gan ei weinidog anwyl, y Parch. T. J. Jenkins, ac yn weddigar uwch man fechan ei fedd gan y Parch. J. Price, Rhydyfro. Teimlem brudd-der mwynaidd yn mrawddegau ein gweinidog parchus yn y bregeth; paham hyny? yr oeddynt yn gyfeillion. Deued ysbrydoliaeth yr Hollalluog ar y teulu wylofus.

Mae blodau y gwanwyn yn tyfu,—
Yn *tyfu* i ewyl yr *haf;*
Mae glaswellt y gwanwyn yn glasu,
I gwmni y cyfryw yr äf;
Mae blodau dynoliaeth yn marw,—
Yn *marw* i ewyl y *nef;*
Mae blodau yn dyfod i sylw—
Diolchaf am byth iddo *Ef.*

EBRILL 8fed, Elizabeth, anwyl ferch John Evans, 37, Ynyslwyd Street, Aberdar, yn 17 oed. Ar ddydd yr angladd, gwasanaethwyd gan y Parchn. D. Silyn Evans ac R. J. Jones, a chladdwyd hi

yn y gladdfa gyhoeddus. Yr Arglwydd a ddyddano ac a gysuro y teulu trallodus yn eu galar mawr.

EBRILL 9fed, David Timothy Lloyd, baban Mr. a Mrs. D. Lloyd, Coedmoruchaf, ger Llanbedr, yn ddau fis oed. Ar ddydd ei angladd, gwasanaethwyd gan y Parch. R. C. Jones. a chladdwyd ef yn mynwent Eglwys Llanwenog.

EBRILL 12fed, yn 19 mlwydd oed, Elizabeth, merch Thomas a Mary Jones, Penybont, Felinfach, Llanfihangel-Ystrad. Byr iawn y bu ei chystudd—yr oedd wrth ei gwasanaeth hyd y pythefnos diweddaf cyn ei marwolaeth. Yr oedd o rodiad tawel, a hoffid hi yn fawr gan ei chydnabod; ac yr oedd yn amlwg yn ei hangladd fod ei symudiad cynar a dirybudd wedi clwyfo, nid yn unig galonau ei rhieni, a'i brodyr, a'i chwaer, ond calonau y rhai hyny oedd wedi bod yn cydchwareu â hi pan yn blant. Y Sadwrn carlynol, cludwyd ei gweddillion i fynwent Eglwys y plwyf. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. Lewis Williams, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. Enoch Jenkins.

EBRILL 12fed, ar ol cystudd o dri diwrnod, Evan John, mab Rees a Rebecca Jones, Cwmtaf Fawr (ond hyd yn ddiweddar o Gefncoed), yn 21 mlwydd oed. Yr oedd marwolaeth ein cyfaill anwyl yn hollol annysgwyliadwy, a'r dyrnod i'r rhieni, mewn canlyniad, yn fwy anhawdd i ddygymod âg ef, ac yn galed iawn i ymddal dano. Treuliasai yr ymadawedig amryw flynyddau yn maelfa eang y Mri. R. T. Jones a'i Gyf., Merthyr, lle yr oedd yn fawr ei barch, nid yn unig gan ei feistri, ond hefyd yn hynod felly gan ei gydweithwyr. Ar y Sul cyn ei farwolaeth, talodd ymweliad â'i rieni, ac ymddangosai yn ei gynefinol iechyd; ond rywbryd yn y nos y diwrnod hwnw, tarawyd ef yn glaf iawn, ac ar unwaith bron collodd bob gallu i sylwi ar yr hyn a gymerai le yn y glaf-ystafell. Gwnaed pobpeth a allasai medrusrwydd meddygon feddwl am dano er atal arteithiau dirdynol ei afiechyd, sef enyniad yr ymenydd, a chafodd bob triniaeth a allasai gofal mam dyner a chyfeillion mynwesol roddi iddo. Er gwaethaf y driniaeth oreu a'r tynerwch mwyaf, gwanychu yn raddol oedd, a daeth yr ymddatodiad ar y dydd a nodir uchod. Yr oedd ein cyfaill ieuanc o rodiad ardderchog, a'i gymeriad yn bur ac yn brydferth. Am flynyddau bu yn aelod yn yr Hen-Dy-Cwrdd, a dangoseg o'r parch a fynwesid tuag ato oedd yr arlant odidog o flodau costfawr a osodwyd ar ei arch gan ei gyd-ieuenctyd yn ei ddosbarth yn yr Ysgol Sul. Danfonwyd blodau tlysion hefyd gan ei feistri, gan ei gydweithwyr yn y faelfa, a chan luaws ereill yn berthynasau a chyfeillion. Y dydd Sadwrn canlynol, hebryngwyd yr hyn oedd farwol ohono gan dyrfa fawr iawn i fynwent yr Hen-Dŷ-Cwrdd, a dangosai pawb o r gwyddfodolion arwyddion o alar am fod bywyd mor addawol wedi ei dori i lawr mor gynar, ac o gydymdeimlad â'r rhieni trallodus ar ol mab oedd mor anwyl ganddynt. Gwasanaethwyd gan Mr. John Lloyd, ysgolfeistr, Penydaren; y Parchn. Jacob Thomas (A.), Cefncoed; J. Hathren Davies; R. J. Jones, M.A., Aberdar; a Mr. Matthew Owen, Cefncoed. Boed i'r tad, a'r fam, a'r brawd ydynt yn wylo eu colled fawr ymgysuro yn y goleuni claer y mae Iesu wedi daflu ar yr amgylchiad chwerw hwn. Mae Duw, y Tad, yn eistedd ar orsedd y bydysawd, ac mae'r cyfan yn sicr o fod yn dda.

Cyffyrddodd Duw â'i fys âg Evan John;
Esmwyth hunodd—mae'n iach uwch dig
pob tòn.

EBRILL 13eg, yn 10 mis oed, Hopkin, cariad-febyn Jenkin a Margaret Morgan, Craig Trebanos. Claddwyd ef y 15fed cyntisol wrth Gellionen, a'r gweinidog yn rhoi balm yr Efengyl ar yr amgylchiad. Dad a mam anwyl, cysurwch eich hunain yn yr ymadrodd gogoneddus hwn o eiddo Iesu o Nazareth: "Gadewch i blant bychain ddyfod ataf Fi, canys eiddo y cyfryw rai yw Teyrnas Nefoedd."

EBRILL 13eg, Margaret Joseph, Peterwell Terrace, Llanbedr, yn 77 mlwydd oed. Ar ol bywyd o wasanaeth a llafur caled, cyrhaeddodd Margaret Joseph ben ei thaith ar y dydd uchod. Gwasanaethwyd yn y tŷ ar ddydd ei hangladd gan y Parch. E. Evans (A.), Llanbedr, ac yn y drws gan y Parch. R. C. Jones. Claddwyd hi yn mynwent Eglwys y plwyf.

Joseph Williams, Argraffydd, Swyddfa'r "Tyst," Merthyr Tydfil.